# CAN

O

# ANNERCH

I'R

## *GYFFREDIN;*

NEU

*Ddyrchafiad o Grist yn ei Berson a'i Aberth yn wyneb Sociniaeth.*

YR AIL ARGRAFFIAD,

GAN

THOMAS THOMAS.

"Ac a wyddom ddyfod Mab Duw, ac efe a roes i ni feddwl, fel
"yr adnabyddom yr hwn sydd gywir. Ac yr ydym yn y cywir
"hwnw, sef yn ei Fab ef Iesu Grist. Hwn yw y gwir Dduw,
"a'r bywyd tragywyddol. 1 Ioan 5, 20.

Drindod mewn undod i'm un Duw,
Ddeil addolwyr y gwir Dduw,
Dwl tradall sy'n dal tri Duw,
Trinia yr doeth y tri yn un Duw.

*CAERFYRDDIN:*

*Argraffwyd gan J. Watkins, Heol-y-prior.—1810.*

# Can o Annerch, &c.

I.

GYDA pharch dymunwn ddweud,
Yr hyn sydd raid mynegu,
Pwy ddyn o bwyll na roddai sen,
Am wadu pen-arglwyddi?
Twyll di-drefn, drwg aniben,
Gau athrawiaeth dynion druain,
Sydd yn gwadu'r gwir, heb gelu,
Duwdod pur yr Arglwydd Iesu;
Gwareded Duw ni bob rhyw un,
Rhag bod yn un â'r rhei'ny.

II.

Rhoed Duw oleuni'r bobl wan,
Cyn rhoddo angeu'r ddyrnod,
Rhoed rym ynt gredu yn y Gwr,
Sy'n Graig â Thwr mewn trallod,
Fel b'ont yn caru'r addfwyn Iesu,
Ceidwad Sion a'i goleuni,
Duw â dyn mewn perffaith undod,
Holl gyflawnder gras heb brindod,
Breswylia yn ei berson glân,
Rhoes dros yr aflan gymmod.

III.

Ei sanctaidd air sy'n dweud pa un,
(Os Mab y dyn a wedir)

Ynteu wâd y cyfryw rai,
  Ac am eu bai fe'u bernir,
Ni all *Indian* du na phagan,
*Ethiopiaid* lleia'u hamcan,
*Ffraingc* a *Spain*, **Mahometanu*,
*Iuddewon* di-gred fry ac obru,
  Mewn cyflwr gwaeth nis gallant fod,
  Na gwadu Duwdod Iesu.

IV.

Dyma gau athrawiaeth drist,
Ac athrist yw eu cyflwr,
O ddiffyg adde'r Duwdod pur,
  Yn Iesu'r gwir Iachawdwr;
Duw rag-flaeno'r cyfryw ddynion,
Cyn del angeu a'i saethau llymion
O'i fawr bwer w[illegible]thur ysgar,
Rhwng corph ac enaid ar y ddaiar,
  A'r enaid bach heb le i ffoi,
  Wedi ei roi mewn galar.

V.

O'm calon 'rwy'n dymuno'n brudd,
I'r wawr-ddydd arnynt wawrio,
I oleuo'r bobl hyn,
  A'r Iesu gwyn breswylio;
Yn eu calon b'o fe'n briod,
Trwy wir gredu yn ei Dduwdod,
Edifaru a galaru,
Am iddynt gymmaint ei ddiystyru,

**Crefydd y Mahometaniaid.*

Y fraint a gaffont hwy yn mhell,
O gredu'n well am Iesu.

VI.

Broffeswyr glew trwy'r union ffydd,
Sydd beunydd yn rhyfela
Yn erbyn gau-athrawiaeth drist,
Ac anghrist maent am ddifa;
*Gwir gristnogion Protestoniaid,*
Sy'n meddianu'r rhan fendigaid;
Dyma'r un rhyw wrth eu henw,
Yn ol yr arfaeth ga's eu galw,
Dyma'r rhai (braf yw eu braint)
Ar Iesu maent yn galw.

VII.

Dyma'r *Perl* sydd fwya'i werth,
Y sanctaidd aberth hyfryd,
Dros deulu'r ffydd, o'i ddwyfol nerth,
Yn bridwerth rhoes ei fywyd.
Dros ei ddeiliaid darfu yfed,
Cwpan chwerw er cyn chwerwed,
Ac ar y pren, rhwng dae'r a nen,
Ei anwyl ben ogwyddodd;
Cymmeradwyol oedd yr iawn,
Ei dad lwyr lawn fodlonodd.

VIII.

O hadoliaeth *Adda* hil,
Mae llawer mil cadwedig,

Ag sydd trwy ffydd o roddiad pur,
  Y cywir bendigedig.
'Nol ei ewyllys mae'n cyfranu,
I'w ei bobl rhai mae'n garu,
Rhinwedd gwaed gwir Fab y Tad,
Anfeidrol yw ei gariad,
  Y cariad hwn yn foreu oedd,
  Cyn iddo ar g'oedd i ddwad.

IX.

Er nad wyf ond eiddyl gwael,
Y gwir 'rwy'n hael gyhoeddi,
Trwy nerth fy Nuw mi greda fod,
  Gwir *D*duwdod yn yr Iesu;
Mae e'n abl i'w ein cynal,
Ar ein taith trwy'r dyrus anial,
Cyfaill goreu yn afon angeu,
Ein hamddiffyn ar ein siwrneu,
  Er gwaetha'r ddraig a'i hanferth wedd,
  *D*wg Brenhin hedd ni adreu.

X.

Amlygu'n glir y gwir bob rhan,
Y mae'r apostol *Ioan*,
Mae Crist yw'r gwir trag'wyddol *D*duw,
  A'r bywyd yw ei hunan,
*D*yma ddigon i neb dynion,
Gael e'n gyfaill yn mhob rhyw storom,
Yn y frawdle mae e'n ddifeu,
Yno i bledio'n llwyr ein plediau,

Dyma *dwrnai* cadarn cryf,
Trwy hwn daeth nef i'r Seintiau.

XI.

Gwir broffeswyr yn mhob man,
Y mae e'n rhan i'r rhei'ny,
I ddyrchafu ei enw ef,
'Rhwn ddaeth o'r nef i'w prynu:
I'r byd isod daeth ein priod,
I ymwisgo natur dyndod,
O *Feth'lem Juda* i *Galfaria*,
Gwir ddangosodd pwy oedd penna,
Y groes fe ddygodd ar y pren,
Fe ddaeth i ben a'i yrfa.

XII.

Gwedi gorphen talu'r iawn,
Ar un prydnhawn wrth ddyoddeu,
Ei gorph a rowd mewn bedd yn nghudd,
Nes daeth y trydydd boreu;
Adgyfododd, a chongcwerodd,
Pwer uffern gas a'i lluoedd,
Yn mysg ei frodyr bu e'n eglur,
Yn ymddangos gwedi'r frwydr,
Gan ddweud tangnefedd wrthynt hwy,
'Nawr gwelwch pwy sydd gywir.

XIII.

O ddydd i ddydd cewch wel'd ar fyr,
Athrawiaeth gau ddiddymmir,

Fe syrth y rhai'n yn ddarnau mân,
  Trwy rym y glân Breswylydd;
Ar eu gwarthaf daw e'u bennaf,
I'w eu barnu'r dydd diweddaf,
Yn eu buchedd drwg digasedd,
Rhaid roi cyfrif am fath gamwedd,
  Sef gwadu'r undeb diwahan,
  Personau glân gogonedd.

XIV.

Am unrhyw neb 'dwy'n ammeu dim,
Ond rhai sydd ddim yn credu,
Mae Crist yw'r ffordd a'r llwybr sydd,
  I'n dwyn trwy ffydd i feddu,
Sawl a gaffo'r rodd-fraint honno,
Wel'd y gwr sy'n dal heb gwympo,
Byd a'i bethau, môr a'r creigiau,
Holl helaethrwydd broydd a bryniau,
  Gaiff hefyd gwymp'ni'r unrhyw un
  Fu'n gornwyd blin i angeu.

XV.

*Sociniaid* balch fath gyflwr mawr,
'Does gobaith fawr gael i chwi,
Am wadu grym y Duwdod pur,
  Yn Iesu'r gwir Oleuni,
Gwedd ei wyneb, rhan ac undeb,
Dan ei aden fwyn fendigaid,
Heb lwyr gredu Duw a'i allu,
A'i gyflawnder yn yr Iesu,

Trwy'r unrhyw allu mawr ei hun,
O doed pob dyn i'w garu.

XVI.

Pob *Sais* a *Chymro* mewn tre a gwlad,
Trwy gariad 'rwyf fi'n hoffi,
Lunio i chwi'r geiriau hyn,
Ar papur gwyn y leni;
Gan ddymuno'r sawl a'i caffo,
'Nol ei ddarllen ynteu drosto,
Farnu'n gywir, mewn modd eglur,
A ydyw'r 'sgrifen yn ol y 'sgrythur,
Yn wyneb gau biniwnau'r byd,
Mae honno gyd yn cywir.

## PENNILL.

MAE'r pwngc o Sociniaeth, yn groes i'r ddysgeidiaeth,
fydd oll yn dda odiaeth, A dwyfol gwir yw,
Mae tuedd yn ddiau, fychanu yr gwir feichiau,
A chadwad enaidiau.—Y gwir Dduw.

Mae'n well i fyw yma, a'r bwys y pwngc yna,
Ng a'r ben yr yrfa.—enaid gwybydded,
Pan del y dydd hwnw, Sociniaeth fydd chwerw,
I'r hyny rhaid marw, er colled.

DIWEDD.